# YMGYNGHORIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

**FFRAMWAITH HUNAN ASESIAD CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU.**

(Ymgynghoriad Gorffennaf 2023)

YMATEB CYNGOR GWYNEDD

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y datblygiad o'r hen Siarter i gefnogi datblygiad Cynghorwyr i'r Hunanasesiad sy'n cael ei awgrymu bellach.

Rydym yn cydweld gyda'r egwyddorion cyffredinol ei bod yn amserol adolygu a diweddaru'r hen Siarter, gan adlewyrchu gofynion deddfwriaethol newydd ac yn arbennig lleihad capasiti a'r her ariannol sy'n wynebu pob un Cyngor.

Rydym yn hynod falch o weld symud o'r hen drefn biwrocrataidd o gasglu tystiolaeth a phrofi yr hyn oedd wedi cael ei gyflawni gan awdurdodau tuag at arfogi'r awdurdodau eu hunain i hunan arfarnu, adnabod eu blaenoriaethau gwella eu hunain, ac anelu at y newidiadau sydd am ddod a'r budd mwyaf i'r awdurdod unigol. Rydym yn croesawu fod hyn am roi rhyddid i'r awdurdodau weithio fesul cam trwy'r hunan arfarniad yn hytrach na phwyslais ar gyflawni'r cyfan.

Fodd bynnag, mae gennym rhywfaint o bryder ynghylch cynnwys a chwmpas y Fframwaith ei hun. Mae'n rhestr faith sy'n adlewyrchu'r byd delfrydol ac mae perygl iddo gael ei gam ddehongli fel gofynion penodol neu hawliau gan Aelodau. Mae rhai o'r gofynion y tu hwnt i ffiniau cyfrifoldeb Cynghorau lleol ac yn ymylu ar gyfrifoldebau grwpiau gwleidyddol (ee yng nghyd-destun darpar ymgeiswyr, rôl arweinyddion grwpiau gwleidyddol i gadw safonau) neu'r Cydbwyllgor Corfforedig (i gefnogi Cynghorwyr ar y cydbwyllgor), partneriaid eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (i fod yn esbonio i'r cyhoedd rôl a chyfrifoldebau Cynghoryr ac AS a chynghorwyr tref a chymuned) neu'r Cynghorwyr eu hunain o ran eu gwaith yn y wardiau. Gofynnir i GLlLC ystyried a oes modd gwahaniaethu rhwng isafswm y gofyn o fewn cyfrifoldebau Awdurdodau lleol a gofynion eraill.

Yn ogystal, mae angen sicrhau cyfieithiad cywir o'r ddogfen gan fod gwahaniaethau mewn ystyr ac/neu aneglurder rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn ambell i fan (ee lefel briodol o gefnogaeth i swyddogion yn y fersiwn Gymraeg, lefel briodol o gefnogaeth gan swyddogion yn y fersiwn Saesneg).

Yn gyffredinol rydym yn croesawu'r symudiad yma os oes modd sicrhau fod eglurder mai gwirfoddol yw'r hunan asesiad, ac nad oes modd i bob awdurdod gyrraedd pob un o'r meini prawf yn llawn.